# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Rhagfyr 2ail 2025 yn Neuadd Ffostrasol

**Yn bresennol** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd) Cyng. Llyr Evans

Cyng. Ceri Jones Cyng. Sian Williams

Cyng. Emyr Jones Cyng. Mark Davies

Cyng. Maldwyn Lewis Cyng. Carol Davies

Cyng. Osian Davies (wedi gofyn i fod ar-lein ond ddim Wi-Fi ar gael)

Cyng. Teifi Evans

**Clerc** Helen Horscroft

Cyn dechrau'r cyfarfod, mi estynodd y Cadeirydd cydymdeimlad y Cynor at y Clerc Helen Horscroft ar farwolaeth mam yng ngyfraith ac i'r Cyng. Rob Jones ar ol colli mam yn ddiweddar.

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Rob Jones

**Cyn dechrau'r cyfarfod, buodd Hywel o gwmni BCCIT yn siarad am system sydd ar gael at ddefnydd y Cyngor Cymuned. Hywel i e bosto'r gwybodaeth ymlaen i bawb gal e weld a ddarllen.**

**2. Datgan Diddordeb**

Neb

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

3.1 **-** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Tachwedd a chynigodd Cyng. Emyr Jones eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng. Llyr Evans.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Helen i neud cyrsiau yn y flwyddyn newydd.

4.2 Coeden Hawen Hall wedi dod lawr.

4.3 Gwaith rhewl Rhydlewis wedi gorffen.

4.4 Clawdd Penrhiwpal wedi cal ei dorri.

**5. Cyrsiau**

**5.1** Pawb i wneud cyrsiau yn y flwyddyn newydd.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

6.1 Cyfle i'r cyhoedd mynegu barn am cyllid blwyddyn nesaf ar wefan y Cyngor.

6.2 Aberystwyth wedi cal ei ddewis fel Dinas Llen gan UNESCO. Hwn yn bwysig iawn i Geredigion a Chymru.

6.3 Cynrhichiolwyr o ysgolion Ceredigion yn cal ei dewis fel aelodau 'Young Parliament'.

6.4 Cyngor Ceredigion wedi cal awdit diamod.

6.5 Mae £310,000 ar ol gan y Cyngor o gyllid llynnedd.

6.6 Mae llyfrgell newydd wedi agor yn Penmorfa , Aberaeron.  Mae'r agoriad swyddogol ar Rhagfyr 12fed.

**7. Gohebiaeth**

7.1 Un Llais Cymru – bwletin 12

7.2 Un Lais Cymru – Arolwg Costiau Byw – Llanwch yr arolwg.

7.3 Wendi Patience – Hyfforddiant am ddim i Gynghorwyr.

7.4 Un Llais Cymru – Cylchlythyr Rhifyn 2.

7.5 Un Llais Cymru – Cost of Living Crisis Project – Information & Resources.

7.6 Heddlu Dyfed Powys – Gweminar 11 Rhagfyr 2025  12.30-14.00 – Cyfleoedd Gwirfoddoli yn ardal Dyfed Powys.

7.7 Cydnabyddiaeth Ariannol/Remuneration – cyflwyniad or Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Gydnabyddiaeth.

7.8 Ein Cyfansoddiad (Wrth y clerc).

7.9 Cathryn Morgan, Cyngor Ceredigion – Bwletin Costau Byw.

7.10 Un Llais Cymru – bwletin 13.

7.11 Urdd – Apel Cronfa Cyfle i Bawb 2026

7.12 Hywel Dda Engagement – Cynllun Gwasanaethau Clinigol- ystyriaeth gydwybodol o adborth – sesiwn Cynghorau Tref a Chymuned- Dydd Mawrth Rhagfyr 2ail 6yh-8yh.

7.13 Anwen McConochie – Cyngor – Bwletin Tachwedd  Cynnal y Cardi.

7.14 Tracy Gilmartin, Un Llais Cymru – Practice Development Note (22) members Induction/Nodiadau Datblygu Ymarfer (22) Sefydlu Aelodau.

7.15 Un Llais Cymru – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru 21.01.26 6-8yh.

7.16 Helen Harries, Cyngor -Cysgodfannau Bysiau – rhestr or cysgodfannau bysiau iw lenwi a dychwelyd.

7.17 Alun Harries – Un Llais Cymru – Model Standing Orders 2023 – ynglyn a'r cyfansoddiad a'r bioamrywiaeth.

**8. Cyllid**

8.1 Cyng. Mark Davies yn cynnig trosglwyddo £8000 o'r cyfrif cadw.

8.2 Cyng. Mark Davies a Cyng. Ceri Jones yn arwyddo sieciau £270.54 ir Clerc, £67.60 i HMRC a £99 i Asmole & Co.

**9. Noson Carolau a Goleuo'r Coed Nadolig**

9.1 Mae Mark, Cartref, Maesllyn wedi gofyn a all y pentre defnyddio coeden sydd yno yn barod ond mae'n gofyn ir Cyngor a allwn rhoi goleuadau arno. Cytunodd pawb i neud hyn.

9.2 Pawb i gwrdd bore Gwener i roi'r coed a golau lan. Manylion pellach iw gadarnhau ar WhatsApp y cyngor.

9.3 Gwaelodion y coed gyda : Sian (Coedybryn), Sharon (Croeslan), Mark (Ffostrasol a Bwlchygroes), Ceri (Rhydlewis).

9.4 Sian i brynu losin.

9.5 Bydd ishe prynu mulled wine, squash, coffi, te a siwgr. Bydd ishe neud mins peis hefyd.

9.6 Pawb i helpu ar ddiwedd y nos yn neuadd Coedybryn.

**10. Awdit**

10.1 Ishe danfon yr awdit i Gwyn am esboniad.

**11. De-Ffib Ffostrasol**

11.1 Mae'r neuadd wedi holi am de-fib oherwydd bod llawer o bobol yn mynd i wahanol bethe yno. Mae 2 de-ffib yn y pentref yn barod. Mae un spar i gael da'r Cadeirydd a all hwn gal ei ddefnyddio gan y neuadd pan fydd angen. Syniad ir neuadd edrych mewn i weld a oes grant ar gael i brynu un. Cytunodd pawb i adael y de-ffib am mawr ond mae Cyng. Maldwyn Lewis fodlon holi am bris.

**12. Cyfansoddiad**

12.1 Pawb i ail-ddarllen y cyfansoddiad yn barod i drafod yn mis Ionawr.

**13. Precept**

13.1 Ffurflen iw llanw mor gynted a phosib a chadw'r swm yn £10,000.

**14. Asesiad Risg**

14.1 Penderfynwyd trafod hwn yn mis Ionawr.

**15. Materion ardal**

15.1 **Ffostrasol :** Llifogydd yn dod lawr hewl tuag at y siop. Mae ishe clirio'r gwteri.

15.2 **Coedybryn :** Buodd cyngerdd llwyddiannus iawn yn y neuadd ar 28.11.25.

15.3 Mae cinio nadolig i'r gymuned yn y neuadd ar 04.12.25.

15.4 Mae canu carolau i godi arian i Tir Dewi yn y neuadd am 2 or gloch ar 14.12.25.

15.5 Mae Cyng. Sian Williams wedi cysylltu a CLIC ynglyn ar dail sydd ar y sgwar.

15.6 **Brongest :** Mae bocs halen i ddod nol – Cyng. Llyr Evans wedi dod o hyd i un ar y fferm.

15.7 Mae sioe Castell Newydd Emlyn wedi cael bach o arian o Sioe Brenhinol Cymru – arian dros ben.

15.8 **Penrhiwpal :** Mae ishe trafod rhoi arian i Eisteddfod y Garreg Las yn weddol gloi.  Byddwn yn gwneud hyn yn mis Ionawr.

15.9 **Rhydlewis :** Mae draeniau rhiw Penrhiwpal yn llawn a draeniau Blaenwern.  Cyng. Ceri Jones i hala fideo i'r clerc er mwyn danfon mlan i CLIC.

15.10 Mae coeden Hawen Hall wedi dod lawr.

**16. Cyfarfod nesaf**

16.1 - Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn, nos Fawrth 6ed Ionawr 2026 am 7.30yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.



06.01.2026

Arwyddwyd ( y Cadeirydd )    Dyddiad